Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol Cyngor Dinas Bangor** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams, **nos Lun, 13 Mai 2024** am 6.30 p.m.

**YN BRESENNOL: -** Ei Theilyngdod y Maer Cynghorydd Elin Walker Jones,
Y Dirprwy Faer Cynghorydd Gareth Parry,
Cynghorwyr: Steve Bell, Simon Hibbs, Medwyn Hughes, John Wynn Jones, Michael Pattison, Gwynant Roberts, Delyth Russell, John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks, Cyfarwyddwr Dinesig, Llinos Jones Dirprwy Gyfarwyddwr, Sioned Jones (Cyfieithydd)

**Am 6.30 pm arweiniodd Ei Theilyngdod y Maer, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Dinesig a'r Cynghorydd John Wynn Jones (yn cario'r byrllysg), y Cynghorwyr i mewn i Siambr y Cyngor.**

Cyn dechrau ffurfiol y cyfarfod, croesawyd pawb i'r seremoni gan y Maer oedd yn ymddeol. Disgrifiodd yr hyn a fu'n flwyddyn brysur iawn i'r Cyngor, gan dynnu sylw at lu o ddigwyddiadau, yn cynnwys Sul y Maer a'r Ŵyl Haf, digwyddiadau niferus y Nadolig, agor siopa yr Ambiwlans Awyr a Thafarn y Garth, yr ymateb gwych i ddiwrnod glanhau y Maer ym mis Awst a noson Rhyddfraint y Ddinas. Adroddodd ei bod yn falch iawn o allu gweithio gydag amryw o fudiadau eraill yn y Ddinas, yn cynnwys Ffrindiau Pier y Garth, MPCT ac NWRC ymhlith eraill. Roedd hi'n arbennig o falch o'r digwyddiad trydydd sector, a arweiniodd at ennill gwobr genedlaethol gan Un Llais Cymru a chynllun i sefydlu hyb cymunedol yng nghanol y Ddinas, a'i gobaith oedd y byddai'r prosiect yn parhau. Yn olaf, diolchodd i staff y Cyngor a'r Cynghorwyr eraill am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

**01/24 ETHOL MAER AR GYFER 2024-25**
Gofynnodd y Maer am enwebiadau i swydd y Maer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig newydd, 2024-2025.

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd Gareth Parry. Ni chynigiwyd enw arall.

Gwnaed y cynnig gan y Cynghorydd John Wyn Williams ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Gwynant Roberts.
**PENDERFYNWYD:** penodi'r Cynghorydd Gareth Parry i swydd Maer Bangor am y flwyddyn ddinesig 2024-2025.

**Gadawodd Maer 2023-2024, Cyng Elin Walker Jones y Siambr, ynghyd â'r darpar Faer Cyng Gareth Parry a'r Cyfarwyddwr Dinesig, gyda'r Cyng John Wynn Jones yn cario'r byrllysg.**

**Daeth Maer Bangor i'r flwyddyn ddinesig newydd, yn cael ei arwain gan Gludwr y Byrllysg, i mewn i'r Siambr gyda'r Cyfarwyddwr Dinesig.**

**Darllenodd Cyng Gareth Parry y Datganiad Derbyn Swydd Maer Cyngor Dinas Bangor** ym mhresenoldeb y Cyfarwyddwr Dinesig a Swyddog Priodol a llofnodwyd y datganiad gan y ddau.

**02/ 24 ANERCHIAD GAN Y MAER NEWYDD**
Rhoddodd y Maer newydd, Cyng Gareth Parry, anerchiad i'r Cyngor. Diolchodd i'r Cynghorwyr a oedd wedi cynnig ac eilio ei enwebiad ac i'r Cyngor am ei ethol. Dywedodd Cyng Parry ei bod wedi bod yn bleser cefnogi Cyng Walker Jones dros y deuddeg mis diwethaf a diolchodd iddi am ei gwaith caled. Fel Maer newydd, dywedodd ei fod yn bwriadu cefnogi staff y Cyngor gymaint ag y gallai er mwyn cyflawni polisïau ac uchelgeisiau'r Cyngor. Diolchodd hefyd i Fenter Iaith Bangor am eu gwaith yn trefnu dathliadau Gŵyl Ddewi. Mewn gair o rybudd, roedd yn cydnabod y gallai'r flwyddyn neu ddwy nesaf fod yn rhai anodd i'r Cyngor wrth i'r Awdurdod Lleol wynebu cyfyngiadau ariannol cynyddol a bydd angen i Gyngor Dinas Bangor fod yn barod i ymateb i hyn.

Cyhoeddodd Cyng Parry mai dwy elusen y Maer yn ystod ei dymor fydd Banc Bwyd y Gadeirlan ac Anheddau. Cyflwynodd ei gydweddog dros y deuddeg mis nesaf sef Mrs Parry a'i Gaplan, sef y Parchedig Ganon Tracy Jones. Yn olaf diolchodd i'r Cynghorwyr am roi eu hymddiriedaeth ynddo.

**03/24 YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Cyng Nigel Pickavance;
Cyng Eirian Williams Roberts, Cyng Mark Roberts a'r Cynghorydd Lisa Toth.

**04/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**05/24 ETHOL DIRPRWY FAER**
Gwahoddodd y maer enwebiadau am swydd y Dirprwy Faer. Cynigiwyd enw'r Cynghorydd Medwyn Hughes gan y Cyng John Wynn Jones ac fe'i eiliwyd gan Cyng Michael Pattison. Dywedodd Cyng Jones ei fod wedi cael profiad uniongyrchol o waith Cyng Hughes ar ran ei gymuned a'r Ddinas gan eu bod ill dau'n cynrychioli'r un Ward. Diolchodd hefyd i'r cyn Faer a'r Maer newydd am eu holl ymdrechion dros y deuddeg mis diwethaf.

**PENDERFYNWYD:** penodi'r Cynghorydd Medwyn Hughes i swydd Dirprwy Faer Bangor am y flwyddyn ddinesig 2024-2025.

Yna rhoddodd y Maer Gadwyn Swydd y Dirprwy Faer am y Cynghorydd Hughes.

**Darllenodd Cyng Medwyn Hughes y Datganiad Derbyn Swydd Maer Cyngor Dinas Bangor** ym mhresenoldeb y Cyfarwyddwr Dinesig a Swyddog Priodol a llofnodwyd y datganiad gan y ddau.

Diolchodd Cyng Hughes i'w gynigiwr am ei enwebu ac i'r Cyngor am ei ethol. Teimlai ei bod yn fraint enfawr cael ei ethol ac addawodd wneud ei orau i gefnogi'r Maer a'i gyd Gynghorwyr.

**06/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 22 MAI 2023**
Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**07/24 CYTUNO AR AMSERLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR NEWYDD**
Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi anfon amserlen cyfarfodydd i'r flwyddyn ddinesig sy'n dod. Cynigiwyd newid dyddiad Pwyllgor Asedau mis Hydref gan fod y dyddiad arfaethedig yn digwydd yn ystod hanner tymor yr ysgol.
**PENDERFYNWYD** derbyn yr amserlen gyda'r newid hwnnw.

**08/24 CYMERADWYO RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNGOR**
*Roedd y Rheolau Sefydlog wedi'u dosbarthu ymlaen llaw.*
Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod pedair elfen o'r Rheolau Sefydlog presennol nad oeddent yn adlewyrchu sut mae'r Cyngor yn gweithio ar hyn o bryd. Roedd y pwyntiau hyn mewn coch yn y fersiynau a anfonwyd ymlaen llaw.
**PENDERFYNWYD** tynnu'r elfennau hyn o'r Rheolau Sefydlog.

**09/24 CYMERADWYO RHEOLIADAU ARIANNOL NEWYDD**
Cyflwynwyd fersiwn newydd o'r Rheoliadau Ariannol i'r Cyngor. Roedd y fersiwn hon yn seiliedig ar dempled model Un Llais Cymru, ac, fel yr adroddwyd, roedd y Pwyllgor Cyllid wedi craffu arni ac wedi'i chymeradwyo.
**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol newydd fel dogfen a chaniatáu i'r Cyngor graffu ar rai o'r manylion yn y cyfarfod nesaf.

**10/24 CYMERADWYO STRWYTHUR CYFAROFYDD Y CYNGOR**
**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

**11/24 PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL A MUDIADAU LLEOL**
**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.15 p.m.